| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **3 Ebrill, 2014** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd / Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Datblygu Economaidd a Busnes** |
| **Teitl:** | **Cynlluniau Tref ac Ardal** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn ymwneud â monitro perfformiad y Cyngor wrth ddarparu ei Gynlluniau Tref a'u manteision i'r trefi eu hunain a'r cymunedau o'u hamgylch.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Y rheswm dros lunio'r adroddiad hwn yw amlygu unrhyw lithriant wrth ddarparu'r Cynlluniau a'r camau gweithredu i wella perfformiad a chynorthwyo'r Cyngor i ddod yn nes at ei gymunedau.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried a darparu sylwadau ar y cynnydd a wnaed hyd yma o ran cyflwyno Cynlluniau Tref.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

### 4.1 Cynnydd y Cynlluniau Tref a fabwysiadwyd

Diweddarir adroddiadau cynnydd bob chwarter blwyddyn ac amgaewyd adroddiad cynnydd ar gyfer y Cynlluniau Tref hyd at ddiwedd y chwarter olaf - Rhagfyr 2013 – gyda'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar 23 Ionawr 2014. Yr eithriad oedd Adroddiad Rheoli Perfformiad Dinbych sydd ynghlwm fel Atodiad 1.

### 4.2 Cynllun Tref ac Ardal y Rhyl

Mae Cynllun Tref ac Ardal y Rhyl ynghlwm fel Atodiad 2. Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan Grŵp Cynghori'r Rhyl ar 12 Mawrth, 2014, a bydd y Cabinet yn ystyried a ddylid cymeradwyo'r cynllun ynghyd â'r blaenoriaethau canlynol ar 25 Mawrth 2014.

| Blaenoriaeth: | Gofyniad Ariannu: |
|---|---|
| Gwelliannau i'r strydwedd | £200,000 |
| Gwella mynedfeydd allweddol | £50,000 |
| Dechrau cyflwyno arwyddion newydd i ddangos y ffordd | £50,000 |
| **CYFANSWM A OFYNNWYD AMDANO O GYLLIDEB Y CYNLLUNIAU TREF** | **£300,000** |

Mae pob blaenoriaeth fwriedig yn cyd-fynd â Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen. Bydd y gwelliannau bwriedig ar gyfer strydwedd yng nghanol y dref yn gwella profiad ymwelwyr â chanol y dref a'i wneud yn amgylchedd mwy deniadol i adwerthwyr. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud ar y cyd â'r gwaith atgyweirio priffyrdd y bwriadwyd ei gwblhau yn ystod blwyddyn ariannol 2014/15. Bydd gwella ymddangosiad y prif fynedfeydd i'r dref a dechrau cyflwyno'r strategaeth arwyddion i ddangos y ffordd newydd ar gyfer y dref yn ategu'r gwaith a fwriedir ar gyfer canol y dref er mwyn gwella'r profiad i ymwelwyr. Mae cyfleoedd i ddefnyddio'r dyraniad a geisiwyd amdano o gyllideb y Cynlluniau Tref i ddenu arian cyfatebol gan gyrff fel Cyngor Celfyddydau Cymru, y Gronfa Cymunedau Arfordirol a Croeso Cymru ar gyfer buddsoddiadau cymwys ynghyd â chymorth gan Gyngor Tref y Rhyl ar gyfer gweithgarwch ategol, a byddwn yn bwrw ymlaen â'r rhain.

### 4.3 Cynllun Tref ac Ardal Dinbych

Mae Cynllun Tref ac Ardal Dinbych ynghlwm fel Atodiad 3. Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan Grŵp Cynghori Dinbych ar 10 Chwefror, 2014, a bydd y Cabinet yn ystyried a ddylid cymeradwyo'r cynllun ynghyd â'r blaenoriaethau canlynol ar 25 Mawrth 2014.

| **Blaenoriaeth:** | **Gofyniad Ariannu:** |
|---|---:|
| Uwchraddio ceginau ym Mhafiliwn Chwaraeon Llandyrnog | £2,000 |
| Gosod llwybr troed yn Aberchwiler | £20,000 |
| Gosod llwybr troed ar Ffordd Garn, Henllan | £85,000 |
| **CYFANSWM A OFYNNWYD AMDANO O GYLLIDEB Y CYNLLUNIAU TREF** | **£107,000** |

Mae angen uwchraddio cegin Pafiliwn Chwaraeon Llandyrnog i wella'r cyfleuster i gyrraedd safon y rheoliadau a fydd yn caniatáu clybiau chwaraeon a grwpiau cymunedol i barhau i'w ddefnyddio. Heb uwchraddio ni fyddai'n bosibl parhau i'w ddefnyddio. Mae angen gosod y llwybrau troed yn Aberchwiler a Henllan i wella diogelwch cerddwyr. Nid yw'r gwaith hwn wedi'i gynnwys yn y rhaglen waith Priffyrdd ond mae'n flaenoriaeth i'r gymuned.

### 4.3 Cynllun Tref ac Ardal Rhuddlan

Mae Cynllun Tref ac Ardal Rhuddlan ynghlwm fel Atodiad 4. Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan Grŵp Cynghori Elwy ar 7 Mawrth, 2014, a bydd y Cabinet yn ystyried a ddylid cymeradwyo'r cynllun ynghyd â'r blaenoriaethau canlynol ar 25 Mawrth 2014.

| **Blaenoriaeth:** | **Gofyniad Ariannu:** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Mynd i'r afael ag eiddo sy'n ddolur llygad yn Niserth | £38,000 |
| Disodli offer chwarae yn Niserth | £12,000 |
| **CYFANSWM A OFYNNWYD AMDANO O GYLLIDEB Y CYNLLUNIAU TREF** | **£50,000** |

Mae sawl eiddo sy'n wag ac wedi adfeilio ar Stryd Fawr Diserth, a gallai eu hymddangosiad atal buddsoddiad yn yr ardal. Gallai gweithgarwch fel rhan o'r flaenoriaeth hon gynnwys gwaith i wella golwg yr adeiladau, ond gofynnwyd am gyllideb eithaf sylweddol i alluogi'r posibilrwydd o gaffael eiddo hyll allweddol lle na fu'r trafodaethau gyda pherchnogion i ymgymryd â'r gwaith yn llwyddiannus hyd yma. Bydd y flaenoriaeth hon yn cynnwys Gwasanaethau Cynllunio a Rheoleiddio'r Cyngor i sicrhau y cyflawnir gweithgarwch gorfodi priodol lle bo angen.
Mae'r offer chwarae yn Nyserth yn hen ac angen eu disodli i annog y gymuned i ddefnyddio'r ardal. Bydd trefniadau cynnal a chadw presennol yn parhau.

**4.4 – Gwariant hyd yma ar Gynlluniau Tref ac Ardal**

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r dyraniadau a wnaed o'r gyllideb hyd yma hyd at ddiwedd mis Mawrth 2014. Mae'r rhain yn cynnwys y dyraniadau bwriedig ar gyfer blaenoriaethau ardaloedd y Rhyl, Dinbych a Rhuddlan sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

**Tabl 1: Y Gyllideb bresennol ar gyfer y Cynlluniau Tref**

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y dyraniad ariannol i Gynlluniau Tref ac Ardal hyd at 31 Mawrth 2014 | **£1,583,000** |
| Dyraniadau hyd yma | **£1,332,170** |
| Balans heb ei ddyrannu hyd at 31 Mawrth, 2014 | **£250,830** |

**Tabl 2: Gwariant hyd yma ac Arian Cyfatebol**

| Tref: | Cynllun Tref Dyraniad hyd yma | Gwariant hyd yma ar y Cynlluniau Tref | Cynlluniau Tref Balans | Arian Cyfatebol hyd yma | Arian Cyfatebol a Ragwelir | Cyfanswm Arian Cyfatebol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prestatyn** | £245,000 | £0 | £245,000 | £0 | £7,000 | £7,000 |
| **Llanelwy** | £84,800 | £8,420 | £76,380 | £0 | £283,500 | £283,500 |
| **Rhuddlan** | £97,000 | £1,726 | £95,274 | £700 | £21,300 | £22,000 |
| **Dinbych** | £242,800 | £50,000 | £192,800 | £0 | £561,200 | £561,200 |
| **Rhuthun** | £169,070 | £41,420 | £127,650 | £41,420 | £187,000 | £228,420 |
| **Corwen** | £95,000 | £25,426 | £69,574 | £18,426 | £52,500 | £70,926 |
| **Llangollen** | £98,500 | £50,000 | £48,500 | £3,000 | £501,000 | £504,000 |
| **Y Rhyl** | £300,000 | £0 | £300,000 | £0 | £200,000 | £200,000 |
| **Bodelwyddan** | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| **CYFANSWM** | **£1,332,170** | **£176,992** | **£1,155,178** | **£63,546** | **£1,813,500** | **£1,877,046** |

Yr unig Gynllun sy'n weddill rŵan yw Bodelwyddan sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a disgwylir iddo gael ei gyflwyno i'r Cabinet ddechrau'r haf.

Wedi i'r UDG ei ystyried ar 20 Ionawr, 2014, disgwylir i adolygiad o effaith y Cynlluniau Tref ac Ardal gael ei gynnal yn Ebrill / Mai 2014. Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal yn annibynnol o'r swyddogaeth Datblygu Economaidd a Busnes sydd â'r prif gyfrifoldeb am ddatblygu a chyflawni'r cynlluniau, a bydd yn dadansoddi cost/budd y prosiectau sy'n cael eu blaenoriaethu yn y cynlluniau.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi bod trefi a chymunedau bywiog a ffyniannus yn economaidd yn hanfodol er mwyn cael economi lleol cryf. Bydd gweithredu Cynlluniau Tref ac Ardal yn cefnogi gweithredu'r flaenoriaeth gorfforaethol ar gyfer gwella'r economi leol a bydd hefyd yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei uchelgais o fod yn nes at y gymuned.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Gweler y manylion ar wariant yn adran 4 uchod.

Mae'r Cynlluniau Tref ac Ardal yn nodi materion, camau gweithredu a blaenoriaethau a ddatblygwyd drwy ymgynghori â'r cymunedau hynny, a dylai fod yn ddogfen allweddol wrth ddylanwadu ar weithgarwch a blaenoriaethau holl Wasanaethau Sir Ddinbych. Felly, er bod Datblygu Economaidd a Busnes yn arwain y gwaith o ddatblygu a chydlynu'r Cynlluniau Tref ac Ardal, mae gwasanaethau eraill ar draws yr awdurdod yn ymwneud â chyflwyno camau gweithredu unigol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i'r adroddiad hwn.**

Bydd Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb unigol ar gyfer prosiectau neu weithgareddau penodol a nodir yn y Cynlluniau Tref ac Ardal yn cael eu datblygu ar yr adeg briodol.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

Datblygir Cynlluniau Tref ac Ardal mewn partneriaeth â'r Cyngor Tref neu Gymuned perthnasol. Cynhaliwyd ymgynghoriadau gyda Phenaethiaid Gwasanaeth CSDd, sefydliadau trydydd sector (drwy CGGSDd), trigolion a'r gymuned fusnes (drwy gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb a drwy arolygon ar y we).

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r gwariant bwriedig wedi'i gynnwys o fewn y dyraniadau cyllid presennol. Ni ddylai unrhyw brosiect cyfalaf ddechrau heb werthusiad priodol a dylai goblygiadau refeniw unrhyw brosiectau gael eu cynnal o fewn y cyllidebau presennol.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae risg y bydd datblygu'r cynlluniau'n cynyddu disgwyliadau ac y gallai methiant i gyflawni niweidio enw da'r Cyngor ymysg Cynghorau Tref a Chymuned a budd-

ddeiliaid eraill.  Bydd hyn yn cael ei reoli drwy gyfranogiad a chyfathrebu parhaus gyda budd-ddeiliaid perthnasol ynglŷn â'r broses o ddatblygu a chyflwyno'r cynlluniau.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi'r pŵer i'r Cyngor wneud unrhyw beth y mae'n credu sy'n debygol o hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal.

Mae Erthyglau 6.1, 6.3.2(c) a 6.3.4(b) yn amlinellu'r pwerau Archwilio mewn perthynas â chynlluniau tref, y sir a'i thrigolion, a pherfformiad y Cyngor wrth gyflawni ei amcanion.